# Y NEUADD, LLANON, CEREDIGION, COFNOD O'R ADEILAD A'R CLODDIAD ARCHAEOLEGOL CYMUNEDOL

## CYFROL I




CYNNAL Y CARDI
Creating Sustainable Communities

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Paratowyd gan: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Ar gyfer : Amgueddfa Ceredigion



REGISTERED IfA ORGANISATION

ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust

**YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED**

RHIF YR ADRODDIAD. 2013/57
RHIF Y PROSIECT. 105803

Medi 2013

# Y NEUADD, LLANON, CEREDIGION, COFNOD O'R ADEILAD A'R CLODDIAD ARCHAEOLEGOL CYMUNEDOL 2013

# CYFROL I

Gan
Fran Murphy & Hubert Wilson

*Paratowyd yr adroddiad yma at ddefnydd y cwsmer yn unig. Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf am ei ddefnyddio gan unrhyw berson na phersonau eraill a fydd yn ei ddarllen neu ddibynnu ar y wybodaeth y mae'n ei gynnwys*

*The report has been prepared for the specific use of the client. Dyfed Archaeological Trust Limited can accept no responsibility for its use by any other person or persons who may read it or rely on the information it contains.*

INVESTOR IN PEOPLE
BUDDSODDWR MEWN POBL

*Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf*
*Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF*
*Ffôn: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121*
*Adran Rheoli Treftadaeth 01558 823131*
*Ffacs: 01558 823133*
*Ebost: info@dyfedarchaeology.org.uk*
*Gwefan: www.archaeolegdyfed.org.uk*

*Dyfed Archaeological Trust Limited*
*The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo, Carmarthenshire SA19 6AF*
*Tel: General Enquiries 01558 823121*
*Heritage Management Section 01558 823131*
*Fax: 01558 823133*
*Email: info@dyfedarchaeology.org.uk*
*Website: www.dyfedarchaeology.org.uk*

*Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd ag elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth.*
*The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)*
CADEIRYDD *CHAIRMAN: PROFESSOR B C BURNHAM MIFA*
CYFARWYDDWR *DIRECTOR: K MURPHY BA MIFA*

# Y NEUADD, LLANON, CEREDIGION: COFNOD O'R ADEILAD A'R CLODDIAD ARCHAEOLEGOL CYMUNEDOL 2013 CYFROL I

## CYNNWYS

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CRYNODEB** | | | 1 |
| **1.** | **CYFLWYNIAD** | | 3 |
| | 1.1 | Comisiynu'r Prosiect | 3 |
| | 1.2 | Cwmpas y Prosiect | 3 |
| | 1.3 | Yr Adroddiad | 3 |
| | 1.4 | Byrfoddau | 4 |
| | 1.5 | Darluniau | 4 |
| | 1.6 | Amserlen | 4 |
| **2.** | **Y SAFLE** | | 5 |
| | 2.1 | Lleoliad | 5 |
| | 2.2 | Cyflwr adfeilion y Neuadd | 6 |
| **3.** | **CEFNDIR HANESYDDOL** | | 12 |
| | 3.1 | Pentref Llanon | 12 |
| | 3.2 | Y Neuadd | 14 |
| **4.** | **CEFNDIR PENSAERNÏOL** | | 17 |
| **5.** | **CEFNDIR ARCHAEOLEGOL** | | 18 |
| **6.** | **METHODOLEG** | | 20 |
| | 6.2 | Clirio'r llystyfiant a chofnod cychwynnol o'r adeilad | 20 |
| | 6.3 | Cloddiad cymunedol a chofnodi'r adeilad ymhellach | 20 |
| | 6.4 | Ôl-gloddio a lledaenu | 21 |
| | 6.5 | Cyfranogiad cymunedol | 21 |
| **7.** | **CANLYNIADAU** | | 23 |
| | 7.1 | Clirio'r llystyfiant a chofnod cychwynnol o'r adeilad | 23 |
| | 7.2 | Cloddiad cymunedol | 27 |
| | 7.3 | Yr Ystafell Orllewinol | 30 |
| | 7.4 | Yr Ystafell Ddwyreiniol | 35 |
| | 7.5 | Ffos (E-F) - Wal ddwyreiniol y Neuadd | 39 |
| | 7.6 | Cofnod o'r adeilad | 42 |
| **8.** | **TRAFODAETH** | | 49 |
| **9.** | **DIOLCHIADAU** | | 52 |
| **10.** | **LLYFRYDDIAETH** | | 53 |

**DARLUNIAU**

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1: | Map lleoliad yn seiliedig ar yr Arolwg Ordnans | 8 |
| Ffigur 2: | Darn o'r map degwm dyddiedig 1844 | 9 |
| Ffigur 3: | Darn o argraffiad 1af 1888 map Arolwg Ordnans 1:2500 | 10 |
| Ffigur 4: | Darn o 2il argraffiad 1905 map Arolwg Ordnans 1:2500 | 11 |
| Ffigur 5: | Darn o fap Arolwg Ordnans 1905 yn dangos lleoliad y Neuadd a'r adeiladau cyfagos | 14 |
| Ffigur 6: | Cynllun wedi'i lunio yn 2013 o adfeilion y Neuadd wedi'i labelu gyda nodweddion pensaernïol adnabyddadwy | 16 |
| Ffigur 7: | Cynllun o'r ddwy ffos a gloddiwyd yn 2000 y tu mewn i'r Neuadd | 19 |
| Ffigur 8: | Cynllun o ddwy ystafell y Neuadd yn dangos arwynebau'r llawr a'r cyd-destunau archaeolegol cysylltiedig | 29 |
| Ffigur 9: | Cynllun o'r Neuadd yn dangos safle'r ffosydd a gloddiwyd, gan gynnwys ffos (E-F) a leolir yn gyfochrog â'r wal ddwyreiniol | 32 |
| Ffigur 10: | Darn yn wynebu'r dwyrain o'r ffos gogledd-de a gloddiwyd yn ystafell orllewinol y Neuadd, yn dangos yr haenau o dan arwyneb y llawr [1003] | 33 |
| Ffigur 11: | Fflaw fflint wedi'i ddarganfod wrth symud carreg [1009] | 34 |
| Ffigur 12: | Gweddlun yn wynebu'r dwyrain o wal ddwyreiniol y Neuadd yn dangos safle'r ffos (E-F) a gloddiwyd yn erbyn wyneb y wal ddwyreiniol | 41 |
| Ffigur 13: | Cynllun terfynol a gweddluniau o adeilad y Neuadd | 44 |
| Ffigur 14: | Gweddlun o wyneb deheuol wal ogleddol y Neuadd | 45 |
| Ffigur 15: | Gweddlun o wyneb gorllewinol wal ddwyreiniol y Neuadd | 46 |
| Ffigur 16: | Gweddlun o wyneb gogleddol wal ddeheuol y Neuadd | 47 |
| Ffigur 17: | Gweddlun o wyneb dwyreiniol wal orllewinol y Neuadd | 48 |

**TABLAU**

| | | |
|---|---|---|
| Tabl 1: | Amserlen archaeolegol a hanesyddol | 4 |

**LLUNIAU**

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1: | Golwg o adfeilion y Neuadd wedi'u gorchuddio â thyfiant yn 2013 o Heol Non | 5 |
| Llun 2: | Golwg o adfeilion y Neuadd yn gynnar yn 2013 yn edrych tua'r de-orllewin | 6 |
| Llun 3: | Golwg o adfeilion wal ogleddol y Neuadd yn 2013 | 7 |
| Llun 4: | Manylion y ffenestr sblae yn y wal ogleddol | 7 |
| Llun 5: | Llun o'r awyr o'r lleiniau rhwng pentrefi Llanon a Llansantffraed a'r môr | 12 |
| Llun 6: | Trap pysgod wedi'i wneud o gerrig ar y blaendraeth i'r gorllewin o bentref Llanon sydd i'w weld pan fydd y llanw'n isel | 13 |
| Llun 7: | Adfeilion y Neuadd tua 1900 | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| Llun 8: | Ffos a gloddiwyd yn y 1970au yn yr ystafell ddwyreiniol yn ardal y lle tân wedi'i flocio | 18 |
| Llun 9: | Yr un ffos o'r 1970au o'r awyr yn edrych tua'r gorllewin | 18 |
| Llun 10: | Llun o'r ffos a gloddiwyd yn 2000 o fewn ardal drws deheuol y Neuadd. Edrych tua'r dwyrain | 19 |
| Llun 11: | Hubert Wilson (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed) ac Irene Phillips (gwirfoddolwr) yn clirio'r llystyfiant o adfeilion y Neuadd yn Ebrill 2013 | 23 |
| Llun 12: | Gwirfoddolwyr a staff o'r Ymddiriedolwyr yn dechrau ar y dasg o gofnodi wal ogleddol y Neuadd | 24 |
| Llun 13: | Edrych tua'r gorllewin ar ôl i lawer o'r llystyfiant gael ei glirio o'r Neuadd | 24 |
| Llun 14: | Wyneb gogleddol wal ogleddol y Neuadd yn ystod y gwaith cadwraeth | 25 |
| Llun 15: | Peiriannau'n symud y gorlwyth y tu mewn i'r Neuadd | 26 |
| Llun 16: | Y tu mewn i'r Neuadd ar ôl i'r rhan fwyaf o'r gorlwyth oedd wedi casglu yno gael ei symud gan beiriannau | 26 |
| Llun 17: | Ed Davies (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed) yn siarad â phlant hŷn o Ysgol Gynradd Gymunedol Llanon ar eu diwrnod gweithgareddau | 27 |
| Llun 18: | Symud yr olion olaf o'r gorlwyth [1000] yn yr ystafell orllewinol | 30 |
| Llun 19: | Edrych tua'r de-orllewin ar draws ystafell orllewinol y Neuadd yn dangos yr arwyneb llawr clai [1003] | 31 |
| Llun 20: | Gwaelod wal [1007] wedi'i ddatgelu yn y ffos gul a gloddiwyd o dan arwyneb y llawr [1003] | 33 |
| Llun 21: | Wedi'i dynnu yn wynebu'r gogledd, mae'r llun yn dangos sut mae sylfeini wal ogleddol y Neuadd wedi'u hadeiladu fesul haen [1006] | 34 |
| Llun 22: | Clawr pot haearn mawr yn dod i'r amlwg o flaen y lle tân yn y wal ddwyreiniol | 35 |
| Llun 23: | Edrych tua'r dwyrain ar ystafell ddwyreiniol y Neuadd ar ôl i'r holl orlwyth [2000] gael ei symud a thrywelu'r ardal | 36 |
| Llun 24: | Llun wedi'i dynnu yn wynebu'r gorllewin yn dangos y cerrig llorio [2007] o dan y bloc carreg mawr [2008] | 37 |
| Llun 25: | Llun wedi'i dynnu yn wynebu'r gorllewin yn dangos yr ardal dreuliedig i'r dwyrain o'r cerrig llorio [2007] | 37 |
| Llun 26: | Wedi'i dynnu yn wynebu'r gogledd, mae'r llun yn dangos y dyddodion morter calch [2012] yng nghornel dde-ddwyreiniol ystafell ddwyreiniol y Neuadd | 38 |
| Llun 27: | Wedi'i dynnu yn wynebu'r dwyrain, mae'r llun yn dangos sut mae sylfeini wal ddwyreiniol y Neuadd yn eistedd yn uniongyrchol ar y graean naturiol [2013] | 38 |
| Llun 28: | Edrych tua'r gorllewin ar y ffos gul (E-F) a gloddiwyd ar hyd y tu allan i wal ddwyreiniol y Neuadd | 39 |
| Llun 29: | Edrych tua'r gorllewin ar y ffos gul (E-F) a gloddiwyd ar hyd y tu allan i wal ddwyreiniol y Neuadd | 40 |

| | | |
|---|---|---|
| Llun 30: | Gwirfoddolwyr Luke a Christine yn mesur a lluniadu wyneb deheuol wal ogleddol y Neuadd | 42 |
| Llun 31: | Gwirfoddolwyr Luke a Neil yn dal ffrâm sgwâr 1m er mwyn tynnu llun o fanylion cilfach yn wal ddwyreiniol y Neuadd | 43 |
| Llun 32: | Y ffwrn (cyn gwaith cadwraeth) a ddatgelwyd yn wyneb gogleddol y wal ogleddol ar ôl clirio'r llystyfiant | 43 |

**MAE'R ATODIADAU I'W GWELD YNG NGHYFROL II YR ADRODDIAD.**

| | |
|---|---|
| **ATODIAD I:** | **Y DYDDIADUR CLODDIO** |
| **ATODIAD II:** | **DISGRIFIADAU O'R CYD-DESTUN** |
| **ATODIAD III:** | **ADRODDIAD CROCHENWAITH** |
| **ATODIAD IV:** | **DARGANFYDDIADAU ERAILL** |
| **ATODIAD V:** | **LLUNIAU O'R NODWEDDION PENSAERNÏOL AR ÔL CYFNERTHU** |
| **ATODIAD VI:** | **TYSTIOLAETH O BERCHNOGION A MEDDIANWYR Y NEUADD, LLANON** |

# Y NEUADD, LLANON, CEREDIGION: COFNOD O'R ADEILAD A'R CLODDIAD ARCHAEOLEGOL CYMUNEDOL

## CRYNODEB

*Mae pentref Llanon wedi'i leoli ar yr A487 rhwng Aberaeron ac Aberystwyth. Mae'n enwog am ei gysylltiad â Santes Non a Dewi Sant. Mae'r enw Llanon yn tarddu o Santes Non, mam nawddsant Cymru, Dewi Sant (ystyr Llanon yw 'Eglwys Non'). Mae Llanon yn enwog am y darn mawr o leiniau canoloesol sy'n goroesi rhwng y pentref a'r môr, yn enwedig rhwng afon Clydan a Pheris.*

*Ym mhentref Llanon mae adeilad canoloesol adfeiliedig o'r enw y Neuadd, neu 'hall' yn Saesneg, yn goroesi wedi'i amgylchu a'i gau i mewn rhywfaint gan fythynnod ôl-ganoloesol llai o faint, gan gynnwys un o'r bythynnod olaf o'i fath yng ngorllewin Cymru gyda tho gwellt â rhaff. Cafodd y Neuadd, y bwthyn o'r 19eg ganrif gyda tho gwellt â rhaff ac ardal o dir bori neu 'lain' gyfagos eu gadael i Amgueddfa Ceredigion gan Mr Alex Cameron er cof am ei wraig yn 1987.*

*Tybir bod y Neuadd, o'i harddull bensaernïol, yn adfeilion Tŷ Neuadd gyda'r simnai wreiddiol yn dyddio'n ôl i ganol yr 16eg ganrif. Mae dogfennau hanesyddol o'r 17eg ganrif gynnar yn cyfeirio at Neuadd yn Llanon ac mae'n rhestru pwy sy'n byw yno. Drwy gydol y 19eg ganrif roedd yn eiddo'r teulu Jones, wedi'i rannu'n ddau fwthyn, ac erbyn 1894 gwyddom fod y Neuadd yn adfail.*

*Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r adfeilion wedi cael eu camddehongli a'u drysu â chapel Santes Non oedd yn ôl pob tebyg wedi'i leoli rhyw 50 metr i ffwrdd yn yr hyn sydd bellach yn ardd Homerton House. Cafwyd dryswch pellach pan ddarganfuwyd cawg ar gyfer dŵr sanctaidd, sydd erbyn hyn yn eglwys Llansantffraed, y dywedir iddo gael ei ddarganfod yn yr adfeilion, a datgelu'r arch isel a chorbel carreg yn y wal ogleddol fel nodweddion y byddech yn eu gweld mewn capel neu eglwys.*

*Yn 2013 roedd y rhan fwyaf o waliau'r Neuadd yn adfeilion ar ôl i'r waliau gwympo tuag i mewn. Roedd yn anodd gweld faint yn union o'r waliau oedd wedi goroesi oherwydd roeddent wedi'u gorchuddio ag iorwg, mieri a'u cuddio gan goed. Roedd rwbel o'r waliau a'r sbwriel oedd wedi casglu dros y blynyddoedd wedi llenwi adfeilion yr adeilad.*

*Cychwynnodd Amgueddfa Ceredigion ar gynllun cymorth grant gan Gynnal y Cardi i symud y llystyfiant, y sbwriel a'r rwbel oedd wedi casglu o adfeilion y Neuadd er mwyn cyfnerthu'r waliau a'u gwarchod rhag dirywio ymhellach. Pan gwblhawyd y gwaith cyfnerthu cynigiwyd agor y Neuadd i'r cyhoedd fel adfail agored gyda phaneli dehongli yn esbonio hanes y safle.*

*Comisiynwyd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i ymgymryd â phrosiect oedd yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol i glirio'r llystyfiant o'r adeilad, gan gofnodi wynebau'r waliau cyn cyfnerthu a chloddio o fewn ôl troed yr adeilad. Y bwriad oedd llunio adroddiad dwyieithog ar y prosiect.*

*Yn Ebrill 2013 dechreuwyd ar y gwaith o glirio'r llystyfiant a hefyd y cam cychwynnol o gofnodi'r adeilad gan dîm o staff o'r Ymddiriedolaeth a gwirfoddolwyr. Yn dilyn gwaith cyfnerthu gan y tîm cadwraeth adeiladau i wneud y waliau yn ddiogel, cloddiwyd ardal fewnol o'r adeilad am dair wythnos gyda staff o'r Ymddiriedolaeth a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol. I gychwyn symudwyd llawer o orlwyth o'r tu mewn i'r adeilad adfeiliedig gan beiriannau. Yn ystod y tair wythnos ymunodd dros 30 o wirfoddolwyr â'r prosiect, gan gloddio deunydd o fewn yr adeilad i ddatgelu haenau'r llawr, cofnodi gweddluniau'r waliau, prosesu'r hyn a ddarganfuwyd a gwneud gwaith ymchwil ar hanes y Neuadd.*

*Mae ein casgliadau yn awgrymu bod y neuadd o'r 16eg ganrif wedi cael ei haddasu yn hwyr yn y 18fed ganrif ac yn gynnar yn y 19eg ganrif, a bod yr haen llawr a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cloddio yn gyson â'r dyddiad hwyrach hwn. O bosib fel rhan o'r un broses addasu, cafodd y lle tân ochrol ei flocio, a hefyd y drws cyferbyn yn y wal ogleddol, rhannwyd y neuadd yn ddwy ystafell, rhoddwyd lle tân newydd yn y wal ddwyreiniol a chloddiwyd yr hen loriau cyn gosod lloriau newydd. Yn ystod y 19eg ganrif mae'n ymddangos bod yr ystafell ddwyreiniol wedi cael ei defnyddio fel siop waith/atgyweirio fach, ei llawr wedi'i dreulio a'i drwsio, mewn cyferbyniad i'r ystafell orllewinol lle roedd y llawr dal mewn cyflwr da. Mae ffynonellau hanesyddol yn nodi bod y Neuadd yn adfail erbyn 1894.*

*Cloddiwyd ffosydd bach drwy haen agored y llawr yn y ddwy ystafell. Dim ond yn yr ystafell orllewinol y gwelwyd darn bach o haen llawr gynharach ac o hyn darganfuwyd darn bach o'r hyn oedd yn ôl pob tebyg yn grochenwaith o'r 18fed ganrif. Datgelwyd nodweddion cynharach byth o dan yr haen llawr hon gan gynnwys wal gerrig ar aliniad hollol wahanol i'r Neuadd, gan awgrymu bod y safle wedi cael ei feddiannu cyn yr 16eg ganrif.*

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Comisiynu'r Prosiect

1.1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Wasanaethau Maes Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed mewn ymateb i gais gan Amgueddfa Ceredigion yn dilyn tendr llwyddiannus am brosiect i gofnodi a chloddio'r adeilad a elwir y Neuadd yn Llanon, Ceredigion.

1.1.2 Mae'r adeilad a elwir y Neuadd (SN 5147 6684) wedi'i leoli o fewn grŵp o adeiladau ôl-ganoloesol bach a arferai ffurfio canol pentref Llanon ar yr A487 rhwng Aberaeron ac Aberystwyth.

1.1.3 Roedd Amgueddfa Ceredigion wedi comisiynu Gwasanaethau Maes Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i ymgymryd â'r gwaith o wneud cofnod archaeolegol o'r adeilad a'r cloddiad cymunedol.

## 1.2 Cwmpas y Prosiect

1.2.1 Roedd y prosiect yn cynnwys clirio'r adeilad adfeiliedig o'r enw y Neuadd o lystyfiant, y sbwriel a'r gorlwyth oedd wedi casglu yno cyn y gellid cofnodi waliau'r adfail a chloddio ardal fewnol yr adeilad. Mae'r adeilad yn mesur tua 17.0m o'r dwyrain i'r gorllewin wrth 7.0m o'r gogledd i'r de.

1.2.2 Cofnodwyd waliau'r adeilad yn fanwl hyd at uchder pen.

1.2.3 Cloddiwyd ardal fewnol yr adeilad i ddatgelu lefelau uchaf yr archaeoleg, gydag ymchwiliadau llai yn unig i'r haenau oddi dano.

1.2.4 Nod y gwaith cloddio oedd paratoi cynllun mewnol o'r adeiledd ac ategu'r wybodaeth a gafwyd drwy gofnodi'r adeilad. Y gobaith oedd cael gwybodaeth am ddyddiad yr adeiledd, ei swyddogaethau a'i hanes datblygiadol.

1.2.5 Yn dilyn y gwaith maes cafodd y data ei wirio, ei drefnu a'i gatalogio'n effeithiol. Cafodd y darganfyddiadau eu glanhau, eu catalogio a'u storio'n briodol.

1.2.6 Mae adroddiad terfynol wedi cael ei lunio (y ddogfen hon), gan gynnwys gweddluniau manwl o wynebau mewnol y waliau a chynlluniau o'r ardal gloddio.

1.2.7 Defnyddir y dystiolaeth a gafwyd o'r safle fel sail ar gyfer cyflwyno adfail y Neuadd yn y dyfodol oherwydd bydd y safle yn agored i'r cyhoedd ar ôl cwblhau'r gwaith cyfnerthu.

1.2.8 Caiff archif prosiect ei gynhyrchu. Caiff yr archif hwn, gan gynnwys yr holl arteffactau, eu cadw yn Amgueddfa Ceredigion.

## 1.3 Yr Adroddiad

1.3.1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio lleoliad y safle ynghyd â'i gefndir hanesyddol ac archaeolegol, ac mae'n crynhoi canlyniadau'r gwaith o wneud cofnod archaeolegol o'r adeilad a'r gwaith cloddio.

## 1.4 Byrfoddau

1.4.1 Mae safleoedd a gofnodir ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol[1] (HER) yn cael eu hadnabod gan eu Prif Rif Cofnod (PRN) a'u lleoli yn ôl eu Cyfeirnod Grid Cenedlaethol (NGR).

## 1.5 Darluniau

1.5.1 Nid yw darnau printiedig o fapiau wedi'u hatgynhyrchu i'w graddfa wreiddiol o reidrwydd.

## 1.6 Amserlen

1.6.1 Mae'r tabl canlynol yn rhoi brasamcan o'r dyddiadau ar gyfer y cyfnodau archaeolegol a drafodir yn yr adroddiad hwn:

| CYFNOD | BRASAMCAN O'R DYDDIAD |
|---|---|
| PALEOLITHIG | tua 120,000 CC - tua 10,000 CC |
| MESOLITHIG | tua 10,000 CC - tua 4400 CC |
| NEOLITHIG | tua 4400 CC - tua 2300 CC |
| YR OES EFYDD | tua 2300 CC - tua 700 CC |
| YR OES HAEARN | tua 700 CC - tua 43 OC |
| RHUFEINIG | tua 43 OC - tua 410 OC |
| CANOLOESOL CYNNAR | tua 410 OC - tua 1066 |
| CANOLOESOL | tua 1066 - tua 1536 |
| ÔL-GANOLOESOL | tua 1536 - tua 1750 |
| MODERN | tua 1900 ymlaen |

**Tabl 1:** Amserlen archaeolegol a hanesyddol

[1] Wedi'i gadw a'i reoli gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Neuadd y Sir, Llandeilo.

## 2. Y SAFLE

### 2.1 Lleoliad

2.1.1 Mae pentref Llanon wedi'i leoli 5 milltir i'r gogledd o Aberaeron ac 11 milltir i'r de o Aberystwyth ar yr A487 yn sir Ceredigion. Mae'n rhan o blwyf Llansantffraed, sy'n cynnwys tair cymuned - Llanon, Llansantffraed a Nebo (Ffigur 1).

2.1.2 Mae Llanon a Llansantffraed yn aneddiadau sydd wedi'u lleoli rhwng dwy afon, Afon Peris ac Afon Cledan, cyn iddyn nhw lifo i Fae Ceredigion.

2.1.3 Mae'r adfail y Neuadd wedi'i leoli ar lôn gul o'r enw Heol Non ychydig ar ôl ei chyffordd â'r A487. Mae'r adeilad ar lefel y tir yn 30.0m uwchben lefel y môr, tua 65.0m i ffwrdd o Afon Cledan. Erbyn hyn mae'r adeilad wedi'i amgylchu a'i gau i mewn rhywfaint gan fythynnod llai a adeiladwyd yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif.

2.1.4 Mae'r ddaeareg waelodol yn cynnwys Ffurfiant Mynydd Bach - Tywodfaen a Charreg Laid, Craigwely Gwaddodol wedi'i ffurfio tua 428 i 443 miliwn o fynyddoedd yn ôl yn y Cyfnod Silwraidd.

2.1.5 Mae'r ddaeareg arwynebol yn cynnwys til rhewlifol, a elwir weithiau yn glog-glai gyda deunyddiau wedi'u dyddodi'n uniongyrchol gan y rhewlif. Gall ei gynnwys amrywio o gleiau i gymysgedd o glai, tywod, graean a chlogfeini.

2.1.6 Mae clogwyni clai clogfaen isel i'w gweld ar hyd yr arfordir rhwng Aberaeron a Llanrhystud.



***Llun 1:*** *Golwg o adfeilion y Neuadd wedi'u gorchuddio â thyfiant yn 2013 o Heol Non.*

## 2.2 Cyflwr adfeilion y Neuadd

2.2.1 Ar ddechrau 2013 roedd llawer o lystyfiant dros yr adfeilion ac roedd yn anodd iawn asesu cyflwr y gwaith maen (Llun 1).

2.2.2 Roedd coed bach a llwyni yn tyfu allan o'r waliau ac roedd iorwg yn gorchuddio'r rhan fwyaf o'r gwaith maen (Llun 2).



***Llun 2:*** *Golwg o adfeilion y Neuadd yn gynnar yn 2013 yn edrych tua'r de-orllewin.*

2.2.3 Nid oedd llinell y wal ddeheuol i'w gweld oherwydd ei bod wedi'i gorchuddio gan orlwyth a llystyfiant.

2.2.4 Roedd yn amlwg bod y llystyfiant yn cuddio faint o orlwyth oedd wedi casglu ar y safle. Roedd hyn i'w weld yn fwy tuag ochr orllewinol y tu mewn i'r adeilad.

2.2.5 Roedd rhai nodweddion pensaernïol i'w gweld, gan gynnwys y lle tân ochrol wedi'i flocio (Llun 3).


2.2.6 Roedd ffenestr sblae is wedi'i darganfod tuag at gornel ogledd-ddwyreiniol y Neuadd yn y wal ogleddol hefyd i'w gweld. Yn rhyfedd ddigon roedd y ffrâm ffenestr bren fewnosodedig wedi goroesi (Llun 4).






***Llun 3:*** *uchod. Golwg o adfeilion wal ogleddol y Neuadd yn 2013, yn dangos y lle tân wedi'i flocio i'r chwith ac i'r dde o'r polyn unioni 1m byrrach mae'r ffenestr sblae is.*

***Llun 4:*** *isod. Manylion y ffenestr sblae yn y wal ogleddol, yn dangos y ffrâm ffenestr bren fewnosodedig a gafodd ei llenwi yn ystod y blynyddoedd diweddarach gan gerrig blocio.*





***Ffigur 1: Map lleoliad yn seiliedig ar yr Arolwg Ordnans.***


Wedi'i atgynhyrchu o Fap Landranger Arolwg Ordnans 1987 graddfa 1:50,000 gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF. Rhif Trwydded 100020930




***Ffigur 2:*** *Darn o'r map degwm dyddiedig 1844. Dangosir lleoliad y Neuadd yn y cylch coch.*




***Ffigur 3:*** *Darn o argraffiad 1af 1888 map Arolwg Ordnans 1:2500. Dangosir lleoliad y Neuadd wedi'i amlinellu'n goch.*




***Ffigur 4:*** *Darn o 2il argraffiad 1905 map Arolwg Ordnans 1:2500. Dangosir lleoliad y Neuadd wedi'i amlinellu'n goch.*

# 3. CEFNDIR HANESYDDOL

## 3.1 Pentref Llanon

3.1.1 Mae'r enw Llanon yn tarddu o Santes Non, mam nawddsant Cymru, Dewi Sant (ystyr Llanon yw 'Eglwys Non') ac yn ôl yr hanes yma y magwyd Dewi Sant.

3.1.2 Un o nodweddion mwyaf unigryw yr ardal hon yw'r lleiniau canoloesol, a elwir yn lleol fel 'slangs' yn Saesneg, sy'n gorwedd ar y tir gwastad wedi'i ddraenio'n dda a hynod gynhyrchiol sy'n ymestyn ar hyd tua dwy filltir o arfordir rhwng Llanon a Llansantffraed (Llun 1). Fe'i rhannwyd yn dair rhan, un i'r gogledd o Afon Peris, gan gynnwys yr eglwys, un rhwng Afon Peris ac Afon Clydan, gan gynnwys y rhan fwyaf o aneddiadau Llanon a Llansantffraed o'r enw Morfa Esgob (Bishop's Land), ac un i'r de o Afon Clydan o'r enw Morfa Mawr.

3.1.3 Yn ôl traddodiad, arferai'r rhan ganol, sef Morfa Esgob rhwng y ddwy afon, fod yn eiddo Dewi Sant, ond cafodd ei rhoi i Archesgob Tyddewi gan Rhys ap Gruffydd ar ôl tua 1215.

3.1.4 Erys nifer o'r lleiniau cyfansoddol hyd heddiw, er bod rhai wedi cael eu huno â'i gilydd ac mae eraill wedi'u gorchuddio gan y maes chwarae a thai.

3.1.5 Er ei bod yn gyffredin yn y canol oesoedd yn Lloegr, nid oedd y system hon o rannu tir yn deg ymysg pentrefwyr yn gyffredin yng Nghymru.



***Llun 5:*** *Llun o'r awyr o'r lleiniau sydd i'w gweld o hyd rhwng pentrefi Llanon a Llansantffraed a'r môr.*

*(DAT AP TAJ-AP-SN5167)*

3.1.6 Mae'r blaendraeth arfordirol rhwng Aberaeron a Llansantffraed yn nodedig am y trapiau pysgod niferus sydd i'w gweld pan fydd y llanw yn isel. Honnir bod y rhai ger Aberarth yn eiddo mynachod Abaty Ystrad Fflur. Cafodd y trapiau hyn eu hadeiladu drwy ddefnyddio cerrig mawr o'r traeth i greu wal siâp-v o linell y llanw uchel sydd i gyd o dan y dŵr pan fydd y llanw'n uchel. Wrth i'r llanw gilio, bydd pysgod yn cael eu dal yn y pyllau ond nid ydynt yn marw oherwydd mae'r waliau yn eu cadw yn y dyfroedd bas. Mae nifer o'r trapiau pysgod cerrig i'w gweld ar y blaendraeth rhwng Llanon a Llansantffraed. Mae'r trap pysgod yn Llun 6 wedi'i leoli ar y blaendraeth i'r gorllewin o bentref Llanon. Mae'r wal gerrig yn rhedeg tua 140m mewn cromlin raddol ac mae sawl llifddor yn y wal lle byddai'r pysgod wedi casglu.




***Llun 6:*** *Trap pysgod wedi'i wneud o gerrig ar y blaendraeth i'r gorllewin o bentref Llanon sydd i'w weld pan fydd y llanw'n isel.*

3.1.7 Gwnaeth y pentref ffynnu yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif gyda diwydiannau wedi'u gwreiddio yn y tir ac ar y môr, ac adeiladwyd nifer o longau ym mhentrefi Llansantffraed a Llanon.

## 3.2 Y Neuadd

3.2.1 Ym mhentref Llanon mae adfeilion y Neuadd wedi goroesi. Mae'r adeilad wedi'i amgylchu a'i gau i mewn rhywfaint gan fythynnod llai o'r 19eg ganrif, gan gynnwys un o'r bythynnod olaf sydd ar ôl yng ngorllewin Cymru gyda tho gwellt â rhaff.




***Ffigur 5:*** *Darn o fap Arolwg Ordnans 1905 yn dangos lleoliad y Neuadd a'r adeiladau cyfagos.*

3.2.2 Cafodd adfeilion y Neuadd, yn ogystal â'r bwthyn to gwellt bach o'r 19eg ganrif a leolir gyferbyn a llain o dir a leolir gerllaw, (Ffigur 5) eu rhoi i Gyngor Dosbarth Ceredigion yn 1987 gan Mr A D Cameron er cof am ei wraig oedd yn enedigol o Lanon.

3.2.3 Yn ystod y 19eg ganrif roedd cryn ddryswch ynghylch safle capel Santes Non a arferai fod yn Llanon ac adeilad adfeiliedig y Neuadd. Erbyn hyn mae'n glir yr arferai capel Santes Non sefyll lle mae gardd Homerton House heddiw (tua 50 metr i ffwrdd) fel y tystia gweithredoedd Homerton sy'n cyfeirio at y safle fel 'preswylfa....a elwir yn Nhŷ Capel neu Gapel Non'. Cafodd y capel ei ddymchwel yn 1905.

3.2.4 Roedd y cysylltiad hwn â Santes Non wedi achosi dryswch hyd at yr 20fed ganrif. Ategwyd y farn hon gan yr honiad bod cawg o'r 15fed ganrif ar gyfer dal dŵr sanctaidd wedi'i darganfod yn adfeilion y Neuadd (sydd erbyn hyn yn eglwys Llansantffraed), a'r farn bod y lle tân ochrol yn gilfach beddrod gyda silff corbel eglwysig i'r chwith.

3.2.5 Cyfeirir at y Neuadd mewn nifer o ddogfennau hanesyddol ac yn y blynyddoedd diwethaf mae Irene Phillips o Gymdeithas Hanes Llansantffraed wedi gwneud gwaith ymchwil helaeth i'r dogfennau hanesyddol, ac mae ei chasgliadau cychwynnol i'w gweld yn Atodiad V.

3.2.6 Dangosa'r ymchwil uchod bod y term *Neuadd,* o'r 17eg ganrif i'r 19eg ganrif, wedi dod i olygu'r casgliad o dai a gafodd eu hadeiladu yng nghyffiniau'r adeilad cynharaf; Neuadd Fawr, sydd erbyn hyn yn cael ei galw ac yn cael ei chyfeirio ati yn yr adroddiad hwn fel y Neuadd.

3.2.7 Mae cyfeiriadau at y Neuadd i'w gweld mewn dogfennau cynnar o'r 17eg ganrif. Mae'n debyg mai'r Neuadd yw'r eiddo y cyfeirir ato yn ewyllys

David Griffith ap Ievan dyddiedig 1610 ac ewyllys Rees ap Morgan dyddiedig 1649. Cyfeirir yn y ddwy ewyllys at "Noyadd fawr" yn Llanon. Mae'n bosib bod hyn yn cyfeirio at y Neuadd, ond mae defnyddio'r gair "fawr" yn awgrymu bod o leiaf dwy neuadd yn bodoli.


3.2.8 Ar ôl y dogfennau hyn o'r 17eg ganrif mae bwlch yn y cofnodion hanesyddol tan ewyllys Jenkins Jones, Porthmawr dyddiedig 1805 sy'n datgan y bydd y "Neuadd Fawr" yn cael ei rhannu ar ôl ei farwolaeth rhwng ei wraig Catherine Jones a'i fab Daniel. O bryd hynny ymlaen trwy'r 19eg ganrif mae'r Neuadd yn parhau yn nheulu'r Jones. Erbyn 1894 mae'r Neuadd yn adfail.

3.3.9 Mae cyfrifiad 1901 yn rhestru'r Neuadd yn adeilad heb ei feddiannu ond rhestrir bod y bwthyn bach o'r 19eg ganrif i'r de (Neuadd Fach), y bwthyn a adeiladwyd ar ochr ddwyreiniol y Neuadd (o'r enw Bwthyn y Neuadd) ac un o'r ddau fwthyn ychydig i'r gogledd (Neuadd Wen 1) i gyd wedi'u rhestru fel adeiladau a feddiannir (Ffigur 5).

3.3.10 Mae nodyn a gyhoeddwyd yn 1894 yn *Yr Haul*, cyfnodolyn Cymraeg enwadol ac eglwysig yn disgrifio'r Neuadd fel adfeilion hen gapel, a disgrifir bod rhan ohoni wedi cael ei defnyddio'n ddiweddar fel ysgol ddydd. Mae'r disgrifiad o'r adfeilion yn cynnwys cyfeiriadau at agoriad drws 5tr o uchder a 3.5tr ar led ac yn "null pigfain", arch fewnol hanner lled dyfnder y wal, a "chilfach" fel y rhai a welir mewn hen eglwysi. Yn ddiddorol ddigon, sonnir am y pren ar ben y to a'i fod i gyd yn goed derw ac yn fawr iawn, gan awgrymu natur arwyddocaol saernïaeth yr adeilad.



***Llun 7:*** *Adfeilion y Neuadd tua 1900. Mae Bwthyn y Neuadd i'w weld yn y cefndir. (Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*




***Ffigur 6:*** *Cynllun wedi'i lunio yn 2013 o adfeilion y Neuadd wedi'i labelu gyda nodweddion pensaernïol adnabyddadwy. Mae'r llythrennau bach yn cyfeirio at y gweddluniau.*

## 4. CEFNDIR PENSAERNÏOL

4.1 Ym marn Richard Suggett o'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru (RCAHMW) mae'r Neuadd yn adfeilion Tŷ Neuadd gyda simnai wreiddiol yn dyddio'n ôl i ganol yr 16eg ganrif.

4.2 Mae wedi disgrifio'r adfeilion isod (cyfeiriwch at Ffigur 6):

*Y farn oedd mai'r adfeilion hyn oedd safle capel Santes Non. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg o edrych yn fanwl ar y ffabrig a'r ffurf cynllun hanesyddol fod yr adeilad yn un domestig ei darddiad, fel yr awgryma'r enw 'Neuadd'. Mae'r adeilad ar safle ar lethr sy'n nodweddiadol o lawer o aneddiadau canoloesol hwyr neu is-ganoloesol.*

*Mae dehongli'r Neuadd fel tŷ yn dibynnu ar swyddogaeth y gilfach wedi'i blocio yn y wal ochrol ogleddol. Mae'r gilfach hon, sy'n mesur tua chwe throedfedd ar led gyda phen meini bwa cambr ysblennydd (cerrig siâp lletem a ddefnyddir gyda cherrig eraill i adeilad arch neu gromgell), wedi cael ei dehongli fel 'cilfach beddrod'. Fodd bynnag, mae ymchwilio gofalus yn dangos bod y gilfach yn lle tân wedi'i flocio gyda ffliw. Wedi dehongli'r gilfach fel lle tân mae gweddill y cynllun domestig yn cwympo i'w le.*

*Yn union o dan y lle tân ceir traws-gyntedd wedi'i ddiffinio'n eglur sy'n darparu mynediad i'r neuadd. Mae'r neuadd, wedi'i gwresogi gan y lle tân ochrol, wedi'i gosod rhwng baeau mewnol ac allanol. Mae'r agoriadau yn y wal ogleddol yn rhoi'r rhythm digamsyniol o dŷ cynnar: drws traws-gyntedd - neuadd - lle tân - ffenestr (esgynlawr) pen uchaf, ffenestr ystafell fewnol. Mae'n ymddangos bod yr agoriadau ffenestr sblae cul ond dwfn heb eu newid, a gall blociad y ffenestr uchaf gynnwys olion mwliwn pren.*

*Mae'r Neuadd yn perthyn i ddosbarth diffiniedig o dai â simneiau ochrol sy'n cadw at gynllun tŷ neuadd canoloesol. Mae'r aneddiadau hyn, sydd fel arfer yn dyddio o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, wedi'u gwasgaru ar hyd yr arfordir gorllewinol o Sir Gaernarfon i Sir Benfro, lle roedd crynhoad amlwg ohonynt yn ardal Tyddewi. Fodd bynnag, ni ddarganfuwyd unrhyw enghreifftiau yn Sir Aberteifi. Felly mae'r Neuadd yn ychwanegiad pwysig at y grŵp hwn o dai cenhedlaeth gyntaf â llefydd tân. Mewn sir lle mai ychydig yn unig o dai cynnar sydd wedi goroesi, mae'r Neuadd yn arbennig o bwysig ac mae'n ymddangos mai hwn yw'r tŷ â simnai wedi'i adeiladu'n bwrpasol cynharaf yn y sir. Mae ei safle wrth ochr bwthyn (croglofft) cynhenid nodweddiadol diweddarach yn gwneud y grŵp yma o adeiladau yn y Neuadd o ddiddordeb arbennig.*

## 5. CEFNDIR ARCHAEOLEGOL

5.1 Yn ystod y 1970au roedd Douglas Hague, ymchwilydd oedd yn aelod o staff RCAHMW, 1948-1981, wedi cloddio dwy ffos o fewn ystafell ddwyreiniol y Neuadd (Lluniau 8 & 9). Roedd yn un gyfochrog ac ychydig i'r dwyrain i'r wal oedd yn rhannu'r adeilad yn ddau, yn agos at y lle tân ochrol wedi'i flocio, ac roedd y llall yng nghornel ogledd-ddwyreiniol yr ystafell.

5.2 Ni ddarganfuwyd unrhyw gofnod o'r cloddiad hwn ond mae rhai o'i bapurau heb eu didoli yn goroesi yn archifau RCAHMW yn Aberystwyth ac yn cynnwys pedwar llun o'i gyfnod ar y safle. Yn Lluniau 8 a 9 isod, gellir gweld sosban haearn bwrw fach yn erbyn y wal fewnol oedd yn rhannu'r adeilad yn ddau. Mae'r sosban hon yn dyddio o'r 19eg ganrif. Mae'n gorwedd uwchben ardal o gerrig palmant garw a gafodd eu datgelu'n ddiweddarach yn 2013.

5.3 Yn Llun 8 roedd y ffotograffydd yn wynebu'r lle tân. O fewn ardal y lle tân wedi'i flocio mae'r ffos a gloddiwyd yn datgelu cerrig mawr wedi'u pentyrru'n gadarn yn erbyn y gwaith maen blocio, nid y rwbel anhrefnus y byddai rhywun yn disgwyl ei weld wedi'i gasglu dros y blynyddoedd.

5.4 Ni ellir rhoi esboniad am hyn oherwydd yn anffodus yn y 1990au cafodd cynllun gwaith cyflogaeth y dasg o symud y cerrig o fewn yr ystafell ddwyreiniol a'u defnyddio i adeiladu waliau eilradd o gwmpas gardd y Neuadd.





***Llun 8:*** *(chwith) Ffos a gloddiwyd yn y 1970au yn yr ystafell ddwyreiniol yn ardal y lle tân wedi'i flocio. Sylwch ar y cerrig wedi'u pentyrru'n gadarn yn erbyn y gwaith maen blocio. Wynebu'r gogledd.* ***Llun 9:*** *(ar y dde) Yr un ffos o'r 1970au o'r awyr yn edrych tua'r gorllewin. Sylwch ar y sosban haearn fach a gafodd ei darganfod ar y llawr cerrig llorio.*


*(© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru)*

5.5 Yng Ngorffennaf 2000 cloddiwyd dwy ffos fach (Ffigur 7 a Llun 10) ar ran Amgueddfa Ceredigion o dan gyfarwyddyd Elena Isayev gyda chymorth gwirfoddolwyr lleol. Roedd y cloddio wedi datgelu llawer o sbwriel oedd wedi casglu ar y safle ers iddo gael ei ddefnyddio diwethaf. Beth bynnag, teimlwyd bod peth stratigraffeg archaeolegol wedi goroesi. Ar ôl symud y

gorlwyth modern o'r 19eg a 20fed ganrif, cloddiwyd haen o rwbel oedd yn cynnwys cerrig, darnau o forter, brics a thalpiau o glai. Roedd hyn yn gorwedd uwchben haen fwy solid o glai a gafodd ei dehongli fel y llawr gwreiddiol a lefel y tir y safle y cloddiwyd sylfeini'r waliau ynddi.



***Llun 10:*** *Llun o'r ffos a gloddiwyd yn 2000 o fewn ardal drws deheuol y Neuadd. Edrych tua'r dwyrain. (Amgueddfa Ceredigion).*




***Ffigur 7:*** *Cynllun o'r ddwy ffos a gloddiwyd yn 2000 yn y tu mewn i'r Neuadd (Amgueddfa Ceredigion).*

# 6. METHODOLEG

6.1 Roedd y cynllun ymchwiliad ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar gyfer y prosiect hwn wedi cynnig tri cham ar gyfer y gwaith archaeolegol.

## 6.2 *Cam 1: Clirio'r llystyfiant a gwneud cofnod cychwynnol o'r adeilad*

6.2.1 I gychwyn roedd rhaid symud y rhan fwyaf o'r iorwg oedd yn cuddio'r waliau er mwyn i'r tîm cadwraeth adeiladau allu asesu cyflwr y waliau. Symudodd staff o'r Ymddiriedolaeth a gwirfoddolwyr bwysau'r canghennau iorwg o wynebau'r wal, ond nid oeddent wedi symud unrhyw wreiddiau oedd yn tyfu allan o'r waliau, yn enwedig y rhai oedd yn tyfu allan o ben y waliau.

6.2.2 Cofnodwyd wynebau agored y waliau hyd uchder pen cyn symud yr holl iorwg a chyn cyfnerthu'r waliau. Cwblhawyd hwn gan staff yr Ymddiriedolaeth gyda chymorth gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd o weddluniau a manylion wedi'u tynnu â llaw, arolwg ffotograffig a mesuriad tir (gan ddefnyddio Mesurydd Pellter Electronig).

6.2.3 Cofnodwyd yr adeilad drwy ddefnyddio'r systemau cofnodi a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ac i'r safonau a chanllawiau perthnasol a osodwyd gan Sefydliad yr Archaeolegwyr (IfA).

6.2.4 Ar ôl clirio'r rhan fwyaf o'r llystyfiant, ond yn ystod cam cychwynnol cofnodi, cafwyd cyfnod o waith cadwraeth lle y dechreuwyd ar y gwaith o gyfnerthu'r waliau.

6.2.5 Roedd clirio'r llystyfiant wedi datgelu dyddodyn mawr o orlwyth arwyddocaol heb fod yn archaeolegol o fewn yr adeilad adfeiliedig, yn enwedig yn yr ystafell orllewinol. Penderfynwyd symud y gorlwyth hwn â pheiriannau ac nid â llaw. Roedd aelod o staff o'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith peiriannu.

## 6.3 *Cam 2: Cloddiad cymunedol a chofnodi'r adeilad ymhellach*

6.3.1 Ar ôl i'r broses o gyfnerthu gyrraedd cam lle roedd pob un o'r waliau yn ddiogel, dechreuodd cloddiad cymunedol am dair wythnos o fewn ôl troed yr adeilad.

6.3.2 Nod y gwaith cloddio oedd dangos cynllun mewnol yr adeiledd. Gan fod y gwaith arfaethedig i osod llawr graean ar draws yr adeiledd yn annhebygol o achosi llawer o ddifrod, y nod oedd i'r cloddio ddatgelu'r dyddodion archaeolegol uchaf, a byddai'n dod i ben ar lefel gytunedig, sef y lefel lle y byddai'r llawr graean yn cael ei osod. Cloddiwyd ffosydd cul ar draws ardal fewnol yr adeilad i ymchwilio'r haenau oddi dano.

6.3.3 Yn ystod y gwaith cloddio cafodd y cofnod o'r adeilad a wnaethpwyd yn ystod Cam 1 ei ddiweddaru a'i wella, gan ychwanegu unrhyw nodweddion a ddatgelwyd drwy gyfnerthu, neu oedd i'w gweld o dan wreiddiau'r llystyfiant.

6.3.4 Roedd dau aelod o staff yr Ymddiriedolaeth a hyd at 10 gwirfoddolwr ar y safle yr un pryd yn cloddio. Dyma'r nifer mwyaf o bobl y gellid eu cael ar y safle gan osgoi gorlenwi o fewn yr ardal gloddio a sicrhau goruchwyliaeth a hyfforddiant digonol i'r gwirfoddolwyr.

6.3.5 Ni chloddiwyd yn ddwfn gyferbyn â'r waliau sefydlog er mwyn eu hatal rhag cael eu tanseilio.

6.3.6 Ar ôl clirio'r gorlwyth â pheiriannau, cafodd yr ardal gloddio ei glanhau â llaw a chloddiwyd amryw o nodweddion hyd at safon briodol er mwyn canfod cymeriad, dosbarthiad a graddfa'r olion archaeolegol.

6.3.7 Cofnodwyd yr holl ddyddodion ar daflen gofnodi'r cyd-destun archaeolegol, lluniad wrth raddfa, ffotograffau a llyfrau nodiadau'r safle. Rhifwyd pob dyddodyn unigol gan ddefnyddio'r system rifo benagored yn unol â Llawlyfr Cofnodi Gwasanaethau Maes Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed [2]. Cofnodwyd cynlluniau a rhannau o'r ffosydd drwy gyfrwng brasluniau wedi'u mesur, lluniadau wrth raddfa a thirfesur manwl gywir gan ddefnyddio EDM. Cafodd cofnod ffotograffig ei gadw drwy ddefnyddio camerâu digidol.

6.3.8 Cafodd lleoliadau'r ffosydd eu tirfesur yn gywir drwy ddefnyddio EDM, wedi'i gysylltu â Datwm Ordnans a ffiniau presennol.

6.3.9 Cafodd yr haenau archaeolegol eu gadael fel yr oeddent ar y cyfan ar ôl eu hadnabod ond cafodd rhai arteffactau o bwysigrwydd archaeolegol eu hadfer, darnau o grochenwaith a gwrthrychau metel yn bennaf. Mae'r darganfyddiadau hyn wedi cael eu storio dros dro gyda Gwasanaethau Maes Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed mewn amodau sefydlog.

6.3.10 Aethpwyd ati i gloddio drwy ddefnyddio'r systemau cofnodi a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ac i'r safonau a'r canllawiau ar gyfer cloddio a osodwyd gan Sefydliad yr Archaeolegwyr (IfA).

6.3.11 Yn ystod Cam 1 a 2 roedd staff o'r Ymddiriedolaeth a'r tîm cadwraeth adeiladau wedi cydweithio'n agos oherwydd roedd y ddau ar y safle yr un pryd yn aml iawn. Roedd rhaid cydlynu amseriad rhai tasgau yn arbennig er mwyn ystyried materion iechyd a diogelwch gyda'r staff yn gweithio ar y safle law yn llaw â gwirfoddolwyr.

## 6.4 *Cam 3: Ôl-gloddio a lledaenu*

6.4.1 Yn dilyn pob cam o'r gwaith lluniwyd yr archif a'r adroddiad a chafodd adroddiad arall ei lunio ar y canlyniadau.

6.4.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys asesu'r holl gofnodion, digiteddio'r holl gynlluniau a pharatoi darluniau, dadansoddi crochenwaith a darganfyddiadau eraill a fyddai'n helpu i bennu'r defnydd diwethaf o'r adeilad.

6.4.3 Cafodd darganfyddiadau o'r safle eu prosesu (eu golchi, eu marcio a'u bagio) gan wirfoddolwyr ar y safle.

6.4.4 Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi i safonau a chanllawiau perthnasol yr IfA.

6.4.5 Mae prif destun yr adroddiad wedi cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog a'r bwriad yw cadw hwn a'r holl ddarganfyddiadau yn Amgueddfa Ceredigion.

## 6.5 *Cyfranogiad cymunedol*

6.5.1 Roedd y prosiect mor gynhwysol â phosibl i'r gymuned leol, gan ddarparu cyfleoedd iddynt gymryd rhan ym mhob agwedd ar y gwaith. Roedd y gwaith wedi parhau ar y penwythnosau er mwyn i fwy o wirfoddolwyr gymryd rhan yn y gwaith cloddio.

[2] Mae Gwasanaethau Maes Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn defnyddio'r Llawlyfr Cofnodi a ddatblygwyd gan Ganolfan Archaeoleg Treftadaeth Lloegr.

6.5.2 Roedd staff addysg gymunedol o'r Ymddiriedolaeth wedi cydweithio â Chymdeithas Hanes Llansantffraed ac Amgueddfa Ceredigion i gydlynu cyfraniad y gymuned leol. Cysylltwyd ag Ysgol Gynradd Llanon a Chlwb Archaeolegwyr Ifanc Aberystwyth a gwnaethon nhw gymryd rhan yn y prosiect.

6.5.3 Cafodd cronfa ddata'r Ymddiriedolaeth o wirfoddolwyr ei chwilio i ddarparu cysylltiadau ar draws ardal ehangach, a chafodd y prosiect ei hysbysebu'n dda yn lleol ac yng nghylchlythyrau'r Ymddiriedolaeth, mewn digwyddiadau ac ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

6.5.4 Roedd staff yr Ymddiriedolaeth wedi cysylltu a cheisio cyngor gan RCAHMW yn Aberystwyth. Roedd staff o RCAHMW wedi ymweld â'r safle yn ystod y gwaith cloddio gan roi cyngor amhrisiadwy ar hanes pensaernïol yr adeilad a dulliau cadwraeth adeiladau.

6.5.5 Cafodd y gwirfoddolwyr gyfle i gymryd rhan mewn amryw o dasgau o gofnodi'r adeilad a'r gwaith cloddio i ymchwil hanesyddol. Yn ystod y gwaith cloddio cafodd unrhyw ddiddordeb neu allu ymysg y rhai oedd wedi gwirfoddoli ei annog.

# 7. CANLYNIADAU

## 7.1 Clirio'r llystyfiant a chofnod cychwynnol o'r adeilad

7.1.1 Ar ddiwedd Ebrill roedd staff o'r Ymddiriedolaeth gyda chymorth gwirfoddolwyr wedi dechrau ar y dasg o glirio'r llystyfiant o adfeilion y Neuadd (Llun 11). Cafodd llystyfiant ar lefel y tir ei dorri a symudwyd pwysau'r iorwg o wynebau'r waliau. Symudwyd iorwg neu wreiddiau llwyni oedd yn tyfu allan o'r waliau, yn arbennig ar ben y waliau.



***Llun 11:*** *Hubert Wilson (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed) ac Irene Phillips (gwirfoddolwr) yn clirio'r llystyfiant o adfeilion y Neuadd yn Ebrill 2013.*

7.1.2 Pan oedd yn bosibl dechreuwyd ar y cam cyntaf o gofnodi'r adeilad. Roedd gwirfoddolwyr wedi gweithio gyda staff o'r Ymddiriedolaeth i gofnodi prif fanylion y gwaith maen cyn dechrau ar y gwaith cadwraeth (Llun 12).

7.1.3 Ar ôl symud y llystyfiant daeth yn amlwg bod y waliau mewn cyflwr gwaeth na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol. Yn arbennig roedd corneli de-orllewinol a gogledd-ddwyreiniol yr adeilad mewn cyflwr gwael.

7.1.4 Roedd y gwaith clirio hefyd wedi datgelu rhywfaint o sbwriel o fewn yr adfeilion, yn ogystal â llawer o orlwyth oedd wedi casglu yn bennaf ar ochr orllewinol yr adeilad (Llun 13).



***Llun 12:*** *Gwirfoddolwyr a staff o'r Ymddiriedolwyr yn dechrau ar y dasg o gofnodi wal ogleddol y Neuadd.*



***Llun 13:*** *Edrych tua'r gorllewin ar ôl i lawer o'r llystyfiant gael ei glirio o'r Neuadd. Sylwch ar y gorlwyth mawr ar ochr orllewinol yr adeilad.*

7.1.5 Roedd y tîm cadwraeth adeiladau wedi parhau â'r gwaith o symud y llystyfiant pan ddechreuon nhw ar y safle yn gynnar ym mis Mai. Yn ystod y broses hon daeth cyflwr gwael y waliau i'r amlwg ac roedd rhaid gwneud llawer o waith manwl i wneud y waliau'n ddiogel. Roedd rhaid ailadeiladu'r waliau mewn mannau (Llun 14). Roedd staff o'r Ymddiriedolaeth wedi cydweithio'n agos â'r tîm cadwraeth adeiladau, gan ddefnyddio eu cofnodion i sicrhau bod y waliau'n cael eu hailadeiladu mor agos â phosibl i'r dyluniad gwreiddiol.



***Llun 14:*** *Wyneb gogleddol wal ogleddol y Neuadd yn ystod y gwaith cadwraeth.*

7.1.6 Penderfynwyd symud y gorlwyth â pheiriannau ac roedd staff o'r Ymddiriedolaeth wedi goruchwylio'r gwaith yma (Llun 15 ac 16).

7.1.7 Roedd y gorlwyth yn gymysgedd o bridd, cerrig oedd wedi cwympo o'r waliau, llawer o grochenwaith o'r 20fed ganrif yn bennaf (wedi'u canfod ar hyd y wal orllewinol yn bennaf), gwydr, plastig, papur lapio bwyd a gwrthrychau plastig neu fetel toredig modern. Roedd y dyddodyn mawr hwn yn amrywio o ran cywasgedd. Mewn mannau roedd tyllau wedi cael eu palu trwyddo naill ai i symud pentyrrau o gerrig neu i arllwys mwy o sbwriel.

7.1.8 Ar ôl cwblhau'r gwaith peiriant, roedd y tîm cadwraeth adeiladau wedi parhau i ailadeiladu ac ailbwyntio'r waliau. Cafodd pennau'r waliau eu gwneud yn ddiogel er mwyn gallu dechau ar y gwaith cloddio archaeolegol yn gynnar ym mis Gorffennaf.

7.1.9 Roedd y gwaith clirio wedi datgelu waliau maen adeilad petryalog yn mesur tua 16.6m o hyd (dwyrain-gorllewin) wrth 7.5m ar led (gogledd-de). Roedd yr holl nodweddion pensaernïol a ddisgrifiwyd mewn cofnodion blaenorol yn bresennol a dangosir eu lleoliad yn Ffigur 6.




***Llun 15:*** *Peiriannau'n symud y gorlwyth y tu mewn i'r Neuadd.*



***Llun 16:*** *Y tu mewn i'r Neuadd ar ôl i'r rhan fwyaf o'r gorlwyth oedd wedi casglu yno gael ei symud gan beiriannau.*

## 7.2 Cloddiad cymunedol

7.2.1 Roedd y cloddiad cymunedol a cham nesaf cofnodi'r adeilad wedi para tair wythnos o 1 Gorffennaf tan 19 Gorffennaf 2013.

7.2.2 Roedd y tywydd am y tair wythnos yn eithriadol o dwym a sych, gan achosi wyneb y tir i bobi'n galed, ac felly roedd yn anodd iawn gwahaniaethu rhwng yr haenau archaeolegol a chloddio'n ofalus.

7.2.3 Roedd y tîm cadwraeth adeiladau wedi gwneud yr holl waliau'n ddiogel ond fe wnaethon nhw barhau i weithio ar y safle yn ystod yr wythnos gyntaf.

7.2.4 Dros y cyfnod o dair wythnos roedd tua 35 o bobl wedi gwirfoddoli ar y safle cloddio. Daeth rhai am ddiwrnod ond roedd eraill wedi cymryd rhan bob dydd. Roedd y gwirfoddolwyr yn amrywio mewn oedran o 15 i 74 oed.

7.2.5 Dros y tair wythnos daeth nifer o ymwelwyr i weld beth oedd yn digwydd, gan gynnwys nifer o drigolion Llanon a ddaeth i'r safle bob dydd. Roedd rhai ymwelwyr hyd yn oed wedi dod yn ôl a gwirfoddoli.

7.2.6 Yn ystod yr ail wythnos roedd staff o'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal dau ddiwrnod gweithgareddau i blant o bob oed o Ysgol Gynradd Gymunedol Llanon (Llun 17) a bore o weithgareddau dros y penwythnos i Glwb Archaeolegwyr Ifanc Aberystwyth.




***Llun 17:*** *Ed Davies (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed) yn siarad â phlant hŷn o Ysgol Gynradd Gymunedol Llanon ar eu diwrnod gweithgareddau.*

7.2.7 Cafodd ymylon y ffosydd a gloddiwyd yn 2000 eu nodi a symudwyd y deunydd a ddefnyddiwyd i'w hôl-lenwi. Roedd cornel ogledd-ddwyreiniol yr ystafell ddwyreiniol wedi cael ei haflonyddu tipyn efallai o ganlyniad i'r ffos a gloddiwyd yn y 1970au ac yna drwy ymyrraeth fodern.

7.2.8 Yn anffodus oherwydd y ffos a gafodd ei chloddio yn 2000 yn ardal y drws (Ffigur 7), mae'r berthynas rhwng y dyddodion yn y ddwy ystafell wedi cael ei cholli.

7.2.9 Cafodd yr holl gyd-destunau archaeolegol (haenau neu nodweddion) a gofnodwyd yn ystod y gwaith cloddio rif cyd-destun unigryw. Yn y disgrifiadau canlynol dangosir y rhifau cyd-destun mewn cromfachau []. Ceir rhestr o'r holl rifau cyd-destun yn Atodiad II.




***Ffigur 8**: Cynllun o ddwy ystafell y Neuadd yn dangos arwynebau'r llawr a'r cyd-destunau archaeolegol cysylltiedig ar ôl symud yr haenau o rwbel.*

## 7.3 Yr Ystafell Orllewinol (Ffigurau 8 a 9)

7.3.1 Ar ôl symud y gorlwyth [1000] â pheiriant symudwyd yr olion oedd yn weddill o'r dyddodyn hwn â llaw, yng nghorneli'r ystafell yn bennaf ac ar draws y wal ddeheuol (Llun 18).



***Llun 18:*** *Symud yr olion olaf o'r gorlwyth [1000] yn yr ystafell orllewinol.*

7.3.2 O dan y gorlwyth roedd haen gywasgedig o glai melyn/brown [1001]. Roedd yr haen hon yn cynnwys cerrig o'r waliau oedd wedi cwympo, darnau o grochenwaith o'r 19eg a'r 20fed ganrif, esgyrn anifeiliaid yn dangos marciau bwtsiera, darnau o bib glai, yn ogystal â llawer o wydr toredig. Roedd [1001] yn amrywio o ran trwch ar draws yr ystafell orllewinol gyda dyfnder cyfartalog o 0.11m.

7.3.3 Ar ôl symud [1001] datgelwyd haen denau o lom lleidiog brown tywyll [1002]. Roedd yr haen hon yn cynnwys llawer o grochenwaith o'r 19eg ganrif, yn ogystal â darganfyddiadau eraill megis cregyn llygad maharen a gwichiaid, esgyrn anifeiliaid gyda marciau bwtsiera, darnau o lo, gwydr toredig a dau fotwm ond dim darnau o unrhyw wrthrychau metel. Roedd yr haen hon yn amrywio o ran dyfnder ar draws y safle gyda thrwch o 0.01-0.04m ar gyfartaledd.

7.3.4 Roedd haen [1002] yn ymestyn ar draws arwyneb yr ystafell orllewinol gan gilio tuag at ochr ddwyreiniol yr ystafell cyn cyrraedd y wal ogledd-ddeheuol fewnol.

7.3.5 O dan haen [1002] roedd arwyneb llawr caled iawn [1003] wedi'i wneud o glai melyn cywasgedig, nifer o gerrig bach a darnau o grochenwaith wedi'u malu.




***Llun 19:*** *Edrych tua'r de-orllewin ar draws ystafell orllewinol y Neuadd yn dangos yr arwyneb llawr clai [1003]. Mae'r nodwedd dywyll a welir tua'r wal orllewinol wedi cael ei hachosi gan wreiddiau hen goeden.*

7.3.6 Yn yr un modd â [1002] mae'r haen llawr hon [1003] yn cilio tuag at ochr ddwyreiniol yr ystafell gan ddod yn fwy glân gyda llawer llai o gerrig. Mae'n bosib bod y newid hwn yn arwydd bod rhaniad gogledd-de mewnol ar draws yr ystafell ond oherwydd y tywydd eithriadol o dwym yn ystod y gwaith cloddio roedd newidiadau bach o'r fath yn lliw'r pridd bron yn amhosib i'w cynllunio.


7.3.7 Penderfynwyd y byddai'r gwaith cloddio yn gorffen yn yr arwyneb llawr hwn [1003] ond cloddiwyd dwy ffos gul (Ffigur 9) ar onglau sgwâr i'w gilydd drwy [1003] i edrych ar yr haenau archaeolegol oddi dano.

7.3.8 Mae waliau cerrig y Neuadd wedi'u hadeiladu o gerrig lleol. Fel y gwelir yn Llun 19 uchod mae'r cerrig sylfaen yn gerrig crwn mawr iawn, rhai mor eang â'r wal ei hun, tua 0.70-1.0m ar led. Mae rhai o'r cerrig wedi cael eu gweithio ac wedi'u hwynebu ac mae olion morter calch gweddilliol mewn mannau.




***Ffigur 9:*** *Cynllun o'r Neuadd yn dangos safle'r ffosydd a gloddiwyd, gan gynnwys ffos (E-F) a leolir yn gyfochrog â'r wal ddwyreiniol.*

7.3.8 Mae Ffigur 10 yn dangos y rhan sy'n wynebu'r dwyrain (A-B) o'r ffos gogledd-de. O dan yr arwyneb llawr [1003] mae darn bach o arwyneb llawr clai cywasgedig cynharach [1005] i'w weld ar ochr ogleddol y ffos, er nad oedd i'w weld wrth gloddio'r ffos. Daethpwyd o hyd i un darn o grochenwaith cyn 19eg ganrif (llestri llenwad graean Dyfed) uwchben yr haen llawr hon. O dan [1005] ac yn rhedeg o dan [1003] roedd haen clai lleidiog llwyd/brown glân a chywasgedig iawn. Roedd yn debyg iawn i'r clai clogfaen naturiol [1008] ond rhyngddo a [1008] roedd nifer o gerrig gwastad mawr a chanolig [1009]. Ar yr olwg gyntaf tybiwyd bod y cerrig hyn yn ddyddodyn naturiol ond wrth ymchwilio ymhellach a thorri ymyl yr adran yn ôl ychydig bach mwy ar ochr ogleddol yr adran hon, darganfuwyd bod gwaelod wal [1007] yn rhedeg i gyfeiriad dwyrain-gorllewin yn fras (Llun 20.)





***Ffigur 10:*** *Darn yn wynebu'r dwyrain o'r ffos gogledd-de a gloddiwyd yn ystafell orllewinol y Neuadd, yn dangos yr haenau o dan arwyneb y llawr [1003].*



***Llun 20:*** *Gwaelod wal [1007] wedi'i ddatgelu yn y ffos gul a gloddiwyd o dan arwyneb y llawr [1003].*

7.3.9 Er na chloddiwyd y wal roedd yn ymddangos ei bod yn eistedd o fewn toriad sylfaen bas o fewn y clai clogfaen naturiol.

7.3.10 Darganfuwyd un fflaw fflint cyn-hanesyddol wrth symud rhai o'r cerrig [1009] o ochr ogleddol y ffos gogledd-de.




***Ffigur 11:*** *Darganfuwyd fflaw fflint cyn-hanesyddol wrth symud carreg [1009] o ochr ogleddol y ffos gogledd-de a gloddiwyd drwy'r ystafell orllewinol.*

7.3.11 Mae'r llun isod yn dangos sut mae sylfeini wal ogleddol y Neuadd yn eistedd ar haen [1006] sy'n gorwedd uwchben y lledaeniad o gerrig [1009], gan brofi bod y cerrig yn dyddio o gyfnod cynharach nag adeiledd y Neuadd.



***Llun 21:*** *Wedi'i dynnu yn wynebu'r gogledd, mae'r llun yn dangos sut y mae sylfeini wal ogleddol y Neuadd wedi'u hadeiladu fesul haen [1006]. Mae'r lledaeniad is o gerrig [1009] yn eistedd ar y clai clogfaen naturiol [1008].*

## 7.4 Yr Ystafell Ddwyreiniol (Ffigurau 8 a 9)

7.4.1 Ar ôl symud y gorlwyth [2000] â pheiriant symudwyd yr olion oedd yn weddill o'r dyddodyn hwn â llaw.

7.4.2 Roedd y broses hon wedi dangos pa mor wahanol yw cymeriad yr ystafell ddwyreiniol a'r ystafell orllewinol. Roedd y dyddodion gweladwy ar draws yr ystafell yn gymysg iawn ac roedd ardaloedd o arwynebau llawr clai cywasgedig i'w gweld.

7.4.3 Roedd ardal ddiffiniedig o glai melyn/brown cywasgedig [2001] i'w gweld (Ffigur 8) yn rhan dde-ddwyreiniol yr ystafell gyda thrwch o 0.09m ar gyfartaledd. Yn amlwg o fewn yr haen hon o glai oedd nifer o wrthrychau haearn wedi'u cyrydu fel allwedd, darnau o ddrysau a ffenestri, ffeil, colfachau, strapiau, staplau, y rhan fwyaf ohonynt yn anghyflawn neu wedi torri. Wrth ymyl yr haen ychydig o flaen lle tân y wal ddwyreiniol roedd clawr pot haearn mawr iawn (Ffigur 8 a Llun 22).



***Llun 22:*** *Clawr pot haearn mawr yn dod i'r amlwg o flaen y lle tân yn y wal ddwyreiniol. Gorweddai clawr y pot o fewn yr haen o glai [2001].*

7.4.4 Roedd ymylon lledaeniad yr haen o glai [2001] (Ffigur 8 a Llun 23) yn wahanol iawn ac o bosib yn cynrychioli gwahanfur neu raniad mewnol a arferai fodoli yn yr ystafell ddwyreiniol.



***Llun 23:*** *Edrych tua'r dwyrain ar ystafell ddwyreiniol y Neuadd ar ôl i'r holl orlwyth [2000] gael ei symud a thrywelu'r ardal.*

7.4.5 Roedd haen [2006] yn silt llychlyd brown tywyll llac (Ffigur 8) yn cynnwys darnau o forter calch, slag, glo, crochenwaith o'r 19eg ganrif, gwydr a haearn. Roedd yn amrywio o ran dyfnder o ychydig gentimetrau o drwch i 0.12m lle roedd yn llenwi pant i'r dwyrain o'r bloc carreg mawr [2008]. Nid oedd yn ymestyn ar draws y cyfan o'r ystafell ac nid oedd yn cwmpasu arwyneb haen [2001] ond yn troshaenu cerrig llorio [2007] wedi'u lleoli i'r de o'r lle tân ochrol wedi'i flocio (Llun 23).

7.4.6 Wedi'i orchuddio'n rhannol gan [2006] roedd ardal o gerrig llorio wedi'u gosod yn amrwd o feintiau gwahanol. Roedd y cerrig llorio hyn yn rhedeg o dan floc carreg mawr [2008] (Ffigur 8 a Llun 24). O gwmpas ymyl dwyreiniol y cerrig llorio roedd pant treuliedig wedi'i lenwi gan haen [2006] (Llun 25).

7.4.7 Roedd y bloc carreg mawr [2008] wedi cael ei roi ar ochr ddwyreiniol y wal fewnol ac wedi cael ei lefelu drwy ddefnyddio cerrig bach (Llun 24). Roedd yn mesur uchafswm hyd o 1.23m ac uchder o 0.41m.

7.4.8 Roedd symud haenau [2001] a [2006] wedi datgelu arwyneb clai brown/ melyn golau anwastad a garw [2009]. Mewn mannau, tuag ymylon yr ystafell ac yn y gornel dde-ddwyreiniol, roedd yr arwyneb clai heb ei dorri, yn wastad ac yn hynod gywasgedig, ond o fewn canol yr ystafell roedd y clai wedi cael ei aflonyddu a'i gorddi.

7.4.9 Yng nghornel dde-ddwyreiniol yr ystafell ac ar hyd y wal ddeheuol a dwyreiniol uwchben [1009] roedd dyddodion o forter calch (Llun 26). Byddai'n ymddangos bod hyn wedi cwympo o'r waliau lle mae olion ohono i'w weld.

7.4.10 Roedd symud [2001] hefyd wedi datgelu carreg aelwyd o flaen lle tân y wal ddwyreiniol (Ffigur 8 a Llun 27).



***Llun 24:*** *Llun wedi'i dynnu yn wynebu'r gorllewin yn dangos y cerrig llorio [2007] o dan y bloc carreg mawr [2008]. Sylwch ar y cerrig bach sydd wedi cael eu defnyddio i lefelu'r bloc carreg (i'w weld ar y dde). Gadawyd y bloc pridd o gwmpas y rhan fwyaf o'r garreg yn ei le oherwydd roedd y bloc carreg yn ansefydlog ac yn dechrau cracio.*



***Llun 25:*** *Llun wedi'i dynnu yn wynebu'r gorllewin yn dangos yr ardal dreuliedig i'r dwyrain o'r cerrig llorio [2007].*



***Llun 26:*** *Wedi'i dynnu yn wynebu'r gogledd, mae'r llun yn dangos y dyddodion morter calch [2012] yng nghornel dde-ddwyreiniol ystafell ddwyreiniol y Neuadd.*

7.4.11 Cloddiwyd ffos dwyrain-gorllewin gul ar draws yr ystafell ddwyreiniol i edrych ar y dyddodion gwaelodol (Ffigur 9). Roedd hyn yn dangos bod haen [2009] yn gorwedd yn uniongyrchol ar raean naturiol [2016] (Llun 27) a bod wal ddwyreiniol y Neuadd wedi'i hadeiladu'n uniongyrchol ar y graean naturiol.



***Llun 27:*** *Wedi'i dynnu yn wynebu'r dwyrain, mae'r llun yn dangos sut mae sylfeini wal ddwyreiniol y Neuadd yn eistedd yn uniongyrchol ar y graean naturiol [2013].*

### 7.5 Ffos (E-F) - Wal ddwyreiniol y Neuadd (Ffigurau 9 ac 11)

7.5.1 Cloddiwyd ffos gul ar hyd ymyl allanol y wal ddwyreiniol i weld a oedd unrhyw dystiolaeth o Fwthyn y Neuadd a fodolai i'r dwyrain o'r Neuadd ac a ddangosir ar fap Arolwg Ordnans 1905 (Ffigur 5) ac mewn llun o'r 20fed ganrif gynnar (Llun 7).

7.5.2 Ar ôl symud dyddodyn trwchus o silt llac [2002] yn cynnwys plastig, gwifrau, poteli llaeth a darnau o grochenwaith modern o'r 20fed ganrif, datgelwyd arwyneb llawr clai caled a cherrig bach [2004]. I'r gogledd o hyn roedd pentwr o gerrig ac eitemau haearn [2003] wedi'u gorchuddio mewn silt llychlyd tywyll. Roedd y pentwr hwn wedi'i leoli ar yr ochr arall i'r wal o'r lle tân ar y wal ddwyreiniol. Roedd y gwrthrychau haearn yn cynnwys sosban fach a rhannau o hen ffwrn cegin a ffliw yn ogystal ag ychydig o ddarnau o grochenwaith o'r 20fed ganrif (Llun 28).



***Llun 28:*** *Edrych tua'r gorllewin ar y ffos gul (E-F) a gloddiwyd ar hyd y tu allan i wal ddwyreiniol y Neuadd. Mae'r llun yn dangos yr arwyneb llawr clai [2002] i'r chwith a'r pentwr o gerrig a gwrthrychau haearn [2003] i'r dde.*

7.5.3 O dan y pentwr darganfuwyd y sylfeini ar gyfer wal gul [2005] (Ffigurau 9 ac 11, Llun 29). Roedd y sylfeini clai a cherrig yn mesur tua 0.40m ar led ac yn rhedeg i'r dwyrain o wal ddwyreiniol y Neuadd sy'n ei ffinio.

7.5.4 I'r gogledd i'r wal sylfaen hon roedd tystiolaeth o bwll (Llun 29). Nid oedd modd cloddio'r pwll hwn yn llawn.

7.5.5 Nid oedd modd estyn hyd y ffos i'r de yn ddigon pell i weld a oedd wal cyfochrog â [2005] yn bodoli.



***Llun 29:*** *Edrych tua'r gorllewin ar y ffos gul (E-F) a gloddiwyd ar hyd y tu allan i wal ddwyreiniol y Neuadd. Mae'r llun hwn yn dangos sylfeini wal [2005] yn rhedeg i'r dwyrain o'r wal ddwyreiniol a thystiolaeth o bwll i'r gogledd o [2005] oedd heb ei gloddio'n llawn.*




***Ffigur 12:*** *Gweddlun yn wynebu'r dwyrain o wal ddwyreiniol y Neuadd yn dangos safle'r ffos (E-F) a gloddiwyd yn erbyn wyneb y wal ddwyreiniol.*

## 7.6 Cofnod o'r adeilad

7.6.1 Wrth i'r cloddiad tair wythnos fynd yn ei flaen, roedd gwaith yn parhau ar gofnodi wynebau mewnol waliau'r Neuadd, gan luniadu'r holl nodweddion pensaernïol yn fanwl a'r holl waith maen hyd at uchder pen.

7.6.2 Cafodd gwirfoddolwyr eu hyfforddi mewn technegau lluniadu ac yna gofynnwyd iddynt weithio mewn pâr i luniadu a mesur y gwaith maen.



***Llun 30:*** *Gwirfoddolwyr Luke a Christine yn mesur a lluniadu wyneb deheuol wal ogleddol y Neuadd.*

7.6.3 Cwblhawyd lluniad carreg wrth garreg wedi'i fesur â llaw o wyneb deheuol wal ogleddol y Neuadd yn ystod y tair wythnos o gloddio, ond nid oedd digon o amser i orffen y gweddill i'r lefel honno o fanylder. Pan oedd angen, tynnwyd lluniau wrth raddfa a'u defnyddio yn ystod y cam ôl-gloddio i lenwi unrhyw fanylion oedd ar goll (Llun 31).

7.6.4 Dangosir lluniadau gweddlun terfynol o holl wynebau mewnol waliau'r Neuadd yn Ffigurau 12 i 16.

7.6.5 Roedd y waliau wedi goroesi i uchderau amrywiol; yr uchafswm uchder a oroesodd oedd yn y gornel ogledd-ddwyreiniol yn c.3.0m, ond cafodd y wal ddeheuol ei dymchwel bron yn llwyr ac roedd yn goroesi fel cwrs sengl o gerrig yn unig am y rhan fwyaf o'i hyd.

7.6.6 Roedd y Neuadd wedi'i lleoli ar ongl sgwâr yn fras i'r llethr dwyrain-gorllewin esmwyth. Felly roedd ochr ddwyreiniol yr adeilad, sef ochr yr esgynlawr, tua 0.40m yn uwch na'r ochr orllewinol.




***Llun 31:*** *Gwirfoddolwyr Luke a Neil yn dal ffrâm sgwâr 1m er mwyn tynnu lluniau o fanylion cilfach yn wal ddwyreiniol y Neuadd.*


7.6.7 O ddiddordeb mawr oedd y ffwrn a gafodd ei datgelu yn wyneb gogleddol y wal ogleddol, y tu ôl i'r lle tân (Llun 32).




***Llun 32:*** *Y ffwrn (cyn gwaith cadwraeth) a ddatgelwyd yn wyneb gogleddol y wal ogleddol ar ôl clirio'r llystyfiant.*





***Ffigur 13:*** *Cynllun terfynol a gweddluniau o adeilad y Neuadd yn 2013.*





***Ffigur 14:*** *Gweddlun o wyneb deheuol wal ogleddol y Neuadd.*




***Ffigur 15:*** *Gweddlun o wyneb gorllewinol wal ddwyreiniol y Neuadd.*




***Ffigur 16:*** *Gweddlun o wyneb gogleddol wal ddeheuol y Neuadd.*




***Ffigur 17:*** *Gweddlun o wyneb dwyreiniol wal orllewinol y Neuadd.*

## 8. TRAFODAETH

8.1 Roedd y gwaith cloddio yn y Neuadd, Llanon yn gyfle prin i archwilio'r unig safle o'i fath y gwyddys amdano yng Ngheredigion. Mae safleoedd tebyg i'w gweld yng Nghymru ac mae rhai wedi cael eu cloddio ym Mhowys, Tyddyn Llwydion (Britnell & Suggett 2002), Tŷ-draw, Llanarmon Mynydd Mawr (Britnell *et al*, 2008) ac yn Sir Drefaldwyn, Tŷ-mawr (Britnell 2001).

8.2 Adeiladwyd y Neuadd ar dir amaethyddol cyfoethog yn agos at ffynonellau dŵr a'r môr. Mae ei nodweddion pensaernïol yn awgrymu'n gryf iddi gael ei hadeiladu yng nghanol yr 16eg ganrif. Tŷ neuadd cadarn gyda cherrig sylfaen enfawr, roedd hwn yn gartref i deulu llewyrchus. Roedd y neuadd yn mesur tua 16.6m wrth 7.5m ac adeiladwyd ei waliau cerrig sych eang yn uniongyrchol ar y clai a'r graean clogfaen naturiol. Mesurodd y walydd 0.7m-1.0m ar led ar gyfartaledd. Roedd traws-gyntedd yn darparu mynediad i'r neuadd gyda drws ar naill ochr i'r cyntedd yn y waliau gogleddol a deheuol.

8.3 Cafodd y neuadd ei gwresogi gan le tân bwaog ochrol, gyda braced carreg o bosib i ddal lamp neu gannwyll i'r gorllewin iddo. Tuag at yr ochr ddwyreiniol uwch byddai man wedi'i godi neu esgynlawr. Yma byddai aelodau pwysig o'r teulu wedi bwyta; a byddai ffenestr sy'n goroesi yn y wal ogleddol wedi goleuo'r lle. Rhwng yr esgynlawr a'r wal ddwyreiniol roedd ystafell fewnol wedi'i goleuo gan un ffenestr yn y wal ogleddol sy'n dal i gynnwys mwliwn pren. Roedd cilfach bwrpasol yn y waliau yn darparu lle storio.

8.4 Mae'n dra phosib bod ochr orllewinol is y neuadd wedi bod yn lle i gadw'r anifeiliaid.

8.5 Yn anffodus nid yw unrhyw dystiolaeth o barwydydd pren neu adeiledd to yn goroesi. Mae erthygl a gyhoeddwyd yn 1894 yn Yr Haul, cyfnodolyn enwadol ac eglwysig Cymreig, yn disgrifio'r Neuadd fel adfail ond yn sôn bod rhai prennau derw o frig y to i'w gweld yno o hyd a'u bod yn dipyn o faint, gan awgrymu natur arwyddocaol saernïaeth yr adeilad. Mae rhyw awgrym bod llawr gyntaf ar ochr ddwyreiniol y neuadd a gellir gweld soced pren yn y wal ogleddol ar yr ochr ddwyreiniol tua'r uchder y byddech yn disgwyl gweld llawr cyntaf, ond nid oes unrhyw socedi eraill ar hyd y wal a fyddai'n cadarnhau hyn.

8.6 Mae'r ffwrn a ddarganfuwyd y tu ôl i'r lle tân yn y wal ogleddol yn cadarnhau natur ddomestig yr adeilad.

8.7 Fodd bynnag, nid y Neuadd yw'r datblygiad cyntaf ar y safle hwn, oherwydd darganfuwyd tystiolaeth o adeiledd cynharach. Mae sylfaen wal gerrig a'r lledaeniad cerrig sy'n ei hamgylchu a ddarganfuwyd o dan y Neuadd yn yr ystafell orllewinol wedi'u selio gan ddyddodion y mae sylfeini'r Neuadd yn eistedd arnynt. Ni wyddys eu dyddiad ond darganfuwyd un fflaw fflint gerllaw ar yr un lefel gan awgrymu bod gweithgaredd cynhanesyddol yn yr ardal.

8.8 Ni wyddom pwy adeiladodd y Neuadd ond mae'r dystiolaeth ddogfennol gynharaf y gwyddys amdani yn nodi'r eiddo mewn ewyllysiau dyddiedig 1610 a 1649. Yna ceir bwlch mawr yn y cofnod ysgrifenedig (cyn belled ag y gwyddom) nes iddi gael ei chrybwyll yn hwyrach yn y 18fed ganrif ac yna drwy gydol y 19eg ganrif mae'n aros yn yr un teulu Jones oedd hefyd yn byw yn y Neuadd o tua 1805 i 1880. Yn hwyrach yn y 18fed ganrif a thrwy'r 19eg ganrif mae'r Neuadd yn cael ei hamgylchu a'i chau i mewn rhywfaint gan nifer o fythynnod bach.

8.9 Mae'r dystiolaeth archaeolegol yn awgrymu bod yr adeilad wedi'i ailfodelu neu ei adnewyddu yn ystod y 18fed ganrif hwyr. gan ddileu unrhyw dystiolaeth o'r lefelau llawr Tuduraidd gwreiddiol ac mae hyn yn cyfateb i raddau â'r dystiolaeth ddogfennol sy'n darparu enw perchennog ar gyfer y Neuadd ar ôl bwlch o sawl blwyddyn.

8.10 Yn hwyr yn y 18fed ganrif o bosib cafodd y lloriau gwreiddiol eu palu i lawr i'r clai clogfaen naturiol y cafodd y waliau eu hadeiladu arnynt. Yna adeiladwyd wal fewnol yn rhannu'r neuadd yn ddwy ystafell. Gosodwyd lloriau clai curedig newydd. Mae un darn bach o grochenwaith a ddarganfuwyd o'r haen llawr gynharaf (1005) yn nodweddiadol o lestri llenwad graean Dyfed. Mae'n bendant yn dyddio o'r cyfnod ôl-ganoloesol, er ei fod yn debygol o fod cyn y 19eg ganrif. Mae'r drws gogleddol wedi'i flocio, a hefyd y lle tân ochrol. Erbyn hyn mae'r brif fynedfa i'r adeilad yn y wal ddeheuol ac mae lle tân newydd wedi'i osod yn y wal ddwyreiniol.

8.11 Nid oes modd dweud a oedd yr holl bethau hyn wedi digwydd yr un pryd neu a oeddent yn rhan o broses dros gyfnod o amser, gan addasu'r adeilad i ofynion mwy modern, proses sy'n parhau hyd heddiw. Mae rhai arwyddion yn y ddwy ystafell bod parwydydd, ar ryw adeg, efallai wedi'u gwneud o bren, yn rhannu'r ystafelloedd yn ardaloedd ar wahân, ond oherwydd prinder y dystiolaeth a'r tywydd anffafriol roedd yn amhosibl cofnodi hyn.

8.12 Rhywbryd yn ystod y 19eg ganrif mae'n debyg daeth yr ystafell ddwyreiniol yn weithdy bach, o bosib i atgyweirio offer tŷ neu amaethyddol metel. Mae bloc carreg mawr oedd efallai'n cael ei ddefnyddio i gynnal arwyneb gwaith neu fainc (nid yw wynebau uchaf y garreg yn dangos unrhyw draul) wedi'i leoli'n ofalus yn erbyn wyneb dwyreiniol y wal fewnol ar gerrig llorio. O gwmpas y cerrig llorio mae'r ddaear wedi'i dreulio'n drwm ac mae lludw tywyll yn cynnwys darnau bach o ddeunydd tebyg i slag yn llenwi'r pantiau treuliedig. Mewn mannau eraill mae wyneb y llawr wedi dadfeilio, ei drwsio a'i atgyweirio. Lle mae llawr yr ystafell wedi'i adael mae wedi'i wasgaru â darnau toredig o fetel, y detritws o siop fach atgyweirio metel yn y 19eg ganrif. Daw'r rhan fwyaf o'r darnau o ddysglau toredig - darnau wedi'u dryllio o haearn gyr a haearn bwrw, eitemau sydd wedi cael eu taflu ac yn ddi-werth.

8.13 Mewn cyferbyniad mae llawr yr ystafell orllewinol yn lân ac mewn cyflwr da, ac nid yw'n dangos llawer o draul. Mae'n bosib bod pobl wedi byw yn yr ystafell hon hyd yn oed tua diwedd oes y Neuadd.

8.14 Erbyn 1894 tynnwyd lluniau o'r Neuadd fel adfail heb unrhyw do, er bod modd gweld Bwthyn y Neuadd gyfan yn y cefndir (Llun 7). Mae'n bosib bod y llawr a ddarganfuwyd yn y ffos a gloddiwyd ar hyd wyneb allanol y wal ddwyreiniol yn gysylltiedig â'r bwthyn hwn.

8.15 Pan adawyd y Neuadd yn segur byddai wedi bod yn ffynhonnell barod o ddeunyddiau adeiladu i'w defnyddio mewn mannau eraill, efallai yn y nifer cynyddol o fythynnod oedd yn cael eu hadeiladu yn Llanon yn yr 20fed ganrif. Dymchwelodd y wal ddeheuol bron yn llwyr dros amser a daeth yr adeilad yn lle i waredu sbwriel domestig.

8.16 Mae'r mwyafrif o'r crochenwaith a adferwyd o'r haenau uwchben y llawr o'r 18fed ganrif wedi'i gysylltu o bosib â'r cyfnod diweddaraf o feddiannaeth yn y Neuadd, y rhan fwyaf ohono yn dyddio'n ôl i ail hanner y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif gynnar. Yn y cyd-destun hwn, mae'n gasgliad gweddol fach o eitemau heb unrhyw beth prin neu o werth ariannol mawr. Er bod peth o'r crochenwaith efallai wedi dod o feddiannu'r adeilad ei hun, mae'r

deunyddiau diweddaraf yn debygol o fod wedi cael eu taflu o'r adeiladau cyfagos. Mae'r ychydig ddarnau sy'n dyddio cyn y 19eg ganrif yn awgrymu meddiannaeth gynharach yn ystod yr 17eg a'r 18fed ganrif.

8.17 Mae'r crochenwaith a'r darganfyddiadau eraill yn arwydd da o arferion domestig y bobl a arferai byw yn yr ardal. Roedd yr eitemau yn cynnwys jariau jamio a phiclo, poteli ar gyfer inciau a diodydd, tebotau a phowlenni mawr, yn ogystal â phlatiau, powlenni a chwpanau gwyn wedi'u masgynhyrchu. Mae nifer o'r platiau cinio, gydag ymylon sgolop rheolaidd, yn dangos dyluniad gwydr wedi'i fowldio. Roedd hwn yn ddyluniad poblogaidd iawn rhwng y 1820au a'r 1890au. O ddiddordeb yw rhan o fas tsieina asgwrn addurnol, wedi'i brynu neu ei gyflwyno fel cofrodd a ddarganfuwyd yng nghyd-destun [2006] gyda darnau cysylltiedig o gyd-destun [2013]. Mae'r fas yn dangos dwy fenyw mewn gwisg Gymreig draddodiadol gyda'r geiriau 'Welsh Costume' oddi dano, ac yn dyddio o'r 20fed ganrif gynnar mae'n debyg.

8.18 Y peth mwyaf trawiadol am y gwaith metel a gasglwyd o'r Neuadd yn ystod y gwaith cloddio yw bod tua 90% ohono yn dod o'r ystafell ddwyreiniol. Yn yr ystafell ddwyreiniol mae'r gwaith metel wedi'i ganfod mewn cyd-destunau yn uniongyrchol ar yr arwyneb llawr a ddifrodwyd ac yn haen (2006), yr haen lychlyd dywyll a ddarganfuwyd yn gorchuddio ac o amgylch yr arwyneb cerrig llorio. Ond yn yr ystafell orllewinol mae gwaith metel wedi'i ganfod yn yr haen o rwbel sy'n ôl-ddyddio'r defnydd o'r ystafell yn unig. Mae hyn yn cadarnhau'r defnydd gwahanol iawn o'r ddwy ystafell yn y 19eg ganrif tua diwedd oes y Neuadd.

8.19 Mae darganfyddiadau eraill yn cynnwys darnau o bib glai, darn o grib asgwrn, sosbenni metel, clawr pot haearn bwrw mawr, darnau o ffenestri, botymau, dolen cyllell asgwrn a darnau o ffwrn. Roedd llawer o wydr toredig o'r 19eg a'r 20fed ganrif hefyd i'w gweld ar draws y safle cyfan.

8.20 O ran yr hyn yr oedd pobl yn ei fwyta, mae astudiaeth o'r esgyrn anifeiliaid wedi dangos bod ychydig dros hanner yr anifeiliaid adnabyddadwy yn ddefaid, ac roedd yr esgyrn eraill yn esgyrn gwartheg a moch yn bennaf. Roedd llawer o'r anifeiliaid yn rhai ifanc ac roedd eu hesgyrn yn dangos tystiolaeth glir o gael eu llifo neu eu torri'n fân yn ystod bwtsiera. Roedd bron pob un hefyd yn dangos arwyddion o gael eu cnoi gan anifeiliaid eraill ar ôl cael eu taflu. Roedd cregyn llygad maharen a gwichiaid hefyd i'w gweld ar draws y safle, yn aml mewn pentyrrau taclus, fel pe baent wedi cael eu gosod felly ar ôl cael byrbryd cyflym.

8.21 Er nad oedd y gwaith cloddio wedi darganfod unrhyw lefelau llawr yn gysylltiedig ag adeiledd Tuduraidd gwreiddiol y Neuadd, mae wedi datgelu manylion o'i hanes diweddarach pan arhosodd ym mherchnogaeth y teulu Jones am lawer o'r 19eg ganrif.

8.22 O'i ewyllys yn 1828 mae Daniel Jones yn amlwg yn ddyn llewyrchus ac yn berchen ar y Neuadd, y 'llain' gyfochrog, a sawl un o'r tai a'r tai allan cyfagos, yn ogystal â thri eiddo arall, 'llain' arall ac amryw o bethau eraill. Mae ei merch Elisabeth Jones yn etifeddu'r Neuadd pan fu farw ei mam yn 1841 ar yr amod ei bod yn gofalu am ei brawd Jenkin, sy'n dwyn y teitl 'ynfytyn' ac mae'n amlwg nad yw'n gallu gofalu am ei hun. Mae Elizabeth yn parhau i fyw yn y Neuadd tan iddi farw yn 76 oed yn 1880 ymhell ar ôl i Jenkin farw yn 1857. Disgrifir Elizabeth yn aml fel merch 'wirion' ac mae'n cael cymorth i'r tlawd sawl gwaith yn ystod ei bywyd. O ddechreuad mor llewyrchus mae Elizabeth yn marw'n dlotyn a gall dirywiad y Neuadd gael ei weld fel adlewyrchiad o'r dirywiad yn amgylchiadau ei pherchennog.

8.23 Yn anad dim roedd y prosiect cloddio a chofnodi adeilad ar safle'r Neuadd yn brosiect cymunedol llwyddiannus iawn gan roi cyfle i nifer o aelodau'r gymuned leol gymryd rhan a chael eu hyfforddi. I nifer o'r gwirfoddolwyr roedd y Neuadd yn ddarn o ddiffeithdir oedd wedi gordyfu roeddent wedi mynd heibio iddo sawl tro o'r blaen, ond erbyn diwedd y prosiect roedd yn adeilad gyda stori ddiddorol i'w hadrodd.

## 9. DIOLCHIADAU

Cyfarwyddwyd y gwaith cloddio gan Fran Murphy a Hubert Wilson gyda chymorth Alice Pyper, Ed Davies a Felicity Sage, pob un o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Hoffai'r Ymddiriedolaeth ddiolch i Carrie Canham o Amgueddfa Ceredigion, Richard Suggett o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Michael Freeman, Alan Jones a Daffydd, Irene Phillips a holl aelodau eraill Cymdeithas Hanes Llansantffraed, am eu cymorth a'u cefnogaeth. Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr niferus hynny ac aelodau'r gymuned leol am eu gwaith caled a'u cymorth yn ystod y prosiect.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Frances Murphy a chynhyrchwyd y cynlluniau a'r lluniadau gan Hubert Wilson.

## 10. LLYFRYDDIAETH

### Cronfa ddata

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn Neuadd y Sir, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF

### Mapiau

British Geological Survey 1:250000 *The Rocks of Wales* Solid 1994

Arolwg Ordnans 1888 *Rhifyn 1af 1:2500 Sir Aberteifi*

Arolwg Ordnans 1905 *2il Rhifyn 1:2500 Sir Aberteifi*

Llanon & Llansantfffraed Tithe & Apportionment 1844

### Cyhoeddiadau

Britnell, W J (gol) 'Tŷ- mawr, Castle Caereinon', *Montgomeryshire Collections*, **89**, (2001).

Britnell, W J, Silvester, R J, Suggett, R and Wiliam, E 'Tŷ-draw, Llanarmon Mynydd Mawr, Powys - a late-medieval cruck-framed hallhouse-longhouse', *Archaeologia Cambensis,* **157**, (2008), 157-202.

Britnell, W J & Suggett, R 'A Sixteenth-Century Peasant Hallhouse in Powys: Survey and Excavation of Tyddyn Llwydion Pennant Melangell, Montgomeryshire', *Archaeological Journal*, **159** (2002), 142-169.

*Yr Haul*, 1894, cyfnodolyn wedi'i gyhoeddi gan W. Spurrell and Son, Caerfyrddin

# Y NEUADD, LLANON, CEREDIGION, COFNOD O'R ADEILAD A'R CLODDIAD ARCHAEOLEGOL CYMUNEDOL


# CYFROL I

RHIF YR ADRODDIAD 2013/57

Medi 2013

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Fran Murphy

Swydd: Project Manager

Signature: 

Dyddiad: 10/01/2014

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gael yn gywir a derbyn sêl bendith  James Meek

ar ran Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf.

Swydd:  Head of Field Services

Llofnod: 
Dyddiad: 10/01/2014

*Yn unol â'n nôd i roddi gwasanaeth o ansawdd uchel, croesawn unrhyw sylwadau sydd gennych ar gynnwys neu strwythur yr adroddiad hwn*